CYNGOR TREF DINBYCH
Neuadd y Dref
Lôn Crown
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3TB

DENBIGH TOWN COUNCIL
Town Hall
Crown Lane
DENBIGH
Denbighshire
LL16 3TB

Ffôn: 01745 815984Tel: 01745 815984

Clerc y Dref **Jenny Barlow** Town Clerk

e-bost: townclerk@denbightowncouncil.gov.uk e-mail

12 o Fai 2022

Annwyl Gynghorwyr,

**AGENDA - Cyfarfod Blynyddol**

A fyddwch mor garedig â nodi y cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor **Dydd Gwener, 20fed o Fai 2022 am 6.30 o'r gloch.** - **Cyfarfod Zoom fydd hwn.**

Jenny Barlow is inviting you to a scheduled Zoom meeting.

Topic: Denbigh Town Council

**Friday 20th May 2022 at 6.30pm**

Join Zoom Meeting
https://us02web.zoom.us/j/3864083388?pwd=MkcxT0xmVTZiMENFc1FTYmxmZGFIQT09

**Meeting ID: 386 408 3388**
**Password: 815984**

One tap mobile
02034815237,,3864083388#,,,,0#,,815984# United Kingdom
02034815240,,3864083388#,,,,0#,,815984# United Kingdom

Dial by your location
0203 481 5237 United Kingdom
0203 481 5240 United Kingdom
0203 901 7895 United Kingdom
0131 460 1196 United Kingdom
0203 051 2874 United Kingdom

**Meeting ID: 386 408 3388**
**Password: 815984**

Find your local number: https://us02web.zoom.us/u/kKUTOBzb7

Yn gywir,

Jenny Barlow
Clerc y Dref.

## AGENDA

1. Gweddi Agoriadol – Y Parchedig Graham Floyd.

2. Ymddiheuriadau.

3. Adroddiad Blynyddol y Maer: Y Cynghorydd Rhys Thomas.

4. Cyflwyniadau gan y Maer y Cynghorydd Rhys Thomas (Elusennau).

5. Ethol Maer am y Flwyddyn 2022 – 2023.

6. Pleidlais o Ddiolch: Cynigir Pleidlais o ddiolch i'r Cyn Faer gan y Cynghorydd Alyn Ashworth.

7. Anerchiad y Maer: Y Cynghorydd Alyn Ashworth.

8. Ethol Dirprwy Faer am y Flwyddyn 2022 – 2023.

9. Adroddiad o Bresenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2021-2022.

10. Penodi Caplan y Maer am y Flwyddyn 2022-2023.

11. Gwasanaeth Dinesig (datganiad gan y Maer).

12. Cynllun Lles (i'w gytuno gan y cynghorwyr tref).

13. Y Fendith – Y Parchedig Jane Finn.

## Cynghorwyr Tref Dinbych Cofrestrau Presenoldeb

## ar gyfer y Flwyddyn 2019-2020

## Denbigh Town Councillors Attendance

## for the Year 2019-2020

| Cyng/Cllr | Presenoldeb/Attendance | % |
|---|---|---|
| Alyn Ashworth | 16/17 | 94% |
| Dyfrig Berry | 15/16 | 93% |
| Pauline Edwards | 10/10 | 100% (Newydd ei phenodi/Newly appointed) |
| Ruth Griffiths | 16/16 | 100% |
| Carla Hargreaves | 12/16 | 75% |
| Sylvia Jennings | 13/16 | 81% |
| Gaynor Morgan Rees | 13/16 | 81% |
| Rob Parkes | 9/17 | 52% |
| Lara Pritchard | 8/16 | 50% |
| Philip Stevens | 12/16 | 75% |
| Glenn Swingler | 12/16 | 75% |
| Rhys Thomas | 17/17 | 100% |
| Roy Tickle | 15/16 | 93% |
| Gaynor Wood-Tickle | 16/17 | 94% |

# CYNGOR TREF DINBYCH

# CYNLLUN LLESIANT

# 2022-2023

## CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy hysbysu Trigolion Dinbych ynghylch gweithgareddau'r Cyngor Tref yn ystod cyfnod 2021-2022. Mae eleni wedi bod yn wahanol i bob un ohonom gyda Covid 19 yn newid ein holl flaenoriaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'r Cyngor Tref wedi'u canslo neu eu gohirio a gyda gweithio gartref yw'r arferol newydd rydyn ni wedi'i addasu ond yn dal i fod ar gael i'r cyhoedd dros y ffôn ac e-bost.

## CYNGOR TREF DINBYCH

Ymysg aelodau'r Cyngor Tref mae 15 o gynghorwyr sy'n cynrychioli tair ward y dref: Y Ward Uchaf, Ganol ac Isaf. Mae 5 cynghorydd yn cynrychioli'r Ward Uchaf, 3 yn cynrychioli'r Ward Ganol a 7 yn cynrychioli'r Ward Isaf. Rhoddodd adran etholwyr Cyngor Sir Ddinbych boblogaeth Dinbych fel 6,708 wedi ei rannu rhwng y wardiau fel a ganlyn ym mis Ebrill 2022.

Uchaf – 1,573
Canol – 1,482
Isaf – 3,653

Mae pum cynghorydd sir yn cael eu hethol i gynrychioli Dinbych ar Gyngor Sir Ddinbych. Mae un cynghorydd sir hefyd yn aelod o'r Cyngor Tref. (fel ar 09.05.2022)

Caiff y Cyngor Tref ei weinyddu gan Glerc y Dref sydd hefyd yn Swyddog Cyllid a chanddo swyddfa yn Neuadd y Dref.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel Pwyllgorau – Cynllunio, Amgylchedd a Chyllid a'r Cyngor Llawn. Er ar hyn o bryd rydym yn cael un cyfarfod Cyngor Llawn trwy Zoom.

## DATGANIAD CENHADAETH

Mae'r Cyngor Tref yn ymroi i wella ansawdd bywyd holl drigolion y dref. Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod ei ddyletswydd i ddiwallu anghenion yr holl bobl sy'n byw a gweithio yn y dref a gwneud hynny mewn ffordd sy'n parchu hunaniaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal.

Bydd y Cyngor Tref yn cydweithio gyda'r holl gyrff eraill, boed yn rhai statudol, cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu gymunedol er mwyn gwella ansawdd bywyd a llesiant eu cymuned ynghyd â hyrwyddo'r dref mewn ffordd weithgar a chadarnhaol.

Mae'r Cyngor Tref yn cyfarfod yn siambr y cyngor yn Neuadd y Dref tair gwaith y mis ac eithrio mis Awst. At hyn, mae nifer o is-bwyllgorau a grwpiau gwaith sy'n cyfarfod

pryd a phan fo'n briodol ond mae'r Cyngor wedi cyfarfod unwaith y mis trwy Zoom am y 2 flynedd diwethaf oherwydd y pandemig.

## PRIF DDYLETSWYDDAU'R CYNGOR

- Cynnig cefnogaeth ariannol a gweinyddol yn ymwneud â holl wasanaethau'r Cyngor Tref.
- Rheoli nifer o ddigwyddiadau blynyddol sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn yn Ninbych fel y digwyddiad Tân Gwyllt yng Nghastell Dinbych
- Gosod y goleuadau Nadolig yn y dref pob blwyddyn
- Cynnal a chadw ychydig o'r cysgodfannau bysiau
- Cynnal a chadw gerddi Dr Evan Pierce
- Rheoli'r Dyddiadur Teithiau Tywys
- Darlithoedd ar Dreftadaeth
- Cynnal a chadw rhai ardaloedd o laswellt
- Cymorth ariannol i grwpiau a sefydliadau amrywiol trwy grant

# Y SAITH NOD LLESIANT

**Cymru lewyrchus.**

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd gwaith, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth gaiff ei gynhyrchu drwy achub ar y cyfle o waith addas.

[redacted]

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid mewn hinsawdd).

[redacted]

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib a lle gaiff dewisiadau ac ymddygiadau sy'n fuddiol i iechyd yn y dyfodol eu deall.

**Cymru sy'n fwy cyfartal.**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni hyd eithaf eu gallu waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol economaidd).

[redacted].

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

[redacted]

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

[redacted]

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried gall

weithred o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol tuag at lesiant byd-eang.

**CYMRU LEWYRCHUS**

Mae tref Dinbych yn dref marchnad hanesyddol ac yn fan canolog ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a manwerthu fel cyfreithwyr, cyfrifwyr ac asiantaethau tai. Mae cyfanswm o 110 uned yng nghanol y dref a dim ond 22 ohonyn nhw oedd yn wag yn 2022. Cafodd unedau manwerthu newydd eu hadeiladu union islaw canol y dref yn natblygiad Iard yr Orsaf, ac yn sgil hyn fe gafodd cyfleoedd gwaith newydd eu creu. Mae pob un o'r unedau wedi'u meddiannu erbyn hynblaw un.

Mae stad ddiwydiannol Colomendy Dinbych yn ased allweddol gyda 115 o unedau yn cynnig llety i ystod o fentrau yn ymwneud ag adeiladu, manwerthu, telegyfathrebu, bwyd, storio, cysylltiadau cyhoeddus, hyfforddiant, iechyd a sectorau tai. Mae hefyd nifer sylweddol o gyfleoedd gwaith yn y sector cyhoeddus yn y dref yn sgil y swyddfeydd llywodraeth leol, Ysgol Uwchradd Dinbych a'r ganolfan hamdden, Ysgol Santes Ffraid, ysgolion cynradd, Llyfrgell Dinbych ac Ysbyty Cymunedol Dinbych.

Aeth yr asiantaeth tai, Grŵp Cynefin ati i ddatblygu HWB Dinbych, sef datblygiad sylweddol lle gall trigolion Dinbych a'r fro fanteisio ar ystod o wasanaethau cefnogi. Prif nod HWB Dinbych ydy cynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant a gwaith yn lleol, ac fe gaiff hyn ei gyflawni drwy gydweithio'n agos gyda busnesau lleol, sefydlu mentrau hunangyflogaeth, datblygu cyfleoedd gyda mentrau lleol a chefnogi pobl ifanc i fynd rhagddi gydag addysg bellach.
Bydd Dinbych hefyd yn manteisio ar dwf economaidd o ganlyniad i'r 2 ddatblygiad Brwcws a hefyd mae cais cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer safle'r ysbyty gynt.

Mae cynrychiolwyr Cyngor Tref Dinbych yn aelodau o amryw gyrff ac mae'n nod gan y cyrff hynny i gynnig cynlluniau yn y dyfodol er mwyn hybu economi'r Dref. Ymysg y cyrff mae'r canlynol -

- Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru
- Gefeilliedig gyda Biebertal
- Grŵp dyfodol Neuadd y Dref
- HWB Dinbych
- Pwyllgor Cyswllt Dinbych
- Prosiect Ieuenctid Dinbych
- Masnach Deg
- Carnifal Dinbych
- Sioe Dinbych

## CYMRU GYDNERTH

Mae Cyngor Tref Dinbych yn ymroi i gynnal a chadw a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig er lles ein trigolion ac eraill. Byddwn bob amser yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio gydag Adran 6 (mae gan awdurdodau cyhoeddus, sy'n ymarfer unrhyw bwerau yn gysylltiedig â Chymru, ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ynghyd â hybu gwydnwch ecosystemau... mae'n ymwneud â newid y ffordd rydym yn meddwl ynghylch gweithredu er lles bioamrywiaeth) wrth ymdrin â phob mater sy'n cyd-fynd â gweithredu ein pwerau fel cyngor. Byddwn yn ymroi i gynnal gwaith effeithiol gyda phob mater yn ymwneud â'r amgylchedd ac wrth ymdrin â phob eiddo rydym yn berchen arnyn nhw neu'n eu rheoli.

Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad i'n partneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch yr angen am gynaladwyedd a bioamrywiaeth.

1. Fel cyngor, rydym eisoes yn ymroi i leihau ein defnydd o blastig un-defnydd.
2. Ar ffurflenni ceisio am grantiau, byddwn yn gofyn i fudiadau sy'n ceisio am gymorth grant gan y cyngor ddatgan sut maen nhw'n bwriadu lleihau eu defnydd o blastig un-defnydd, er mwyn cynhyrchu cyn lleied o wastraff na ellir ei ailgylchu â phosib a darparu blychau ailgylchu ar gyfer y cyhoedd ac arddangoswyr ymhob digwyddiad. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr drafod sut maen nhw'n bwriadu gweithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd.
3. Bydd y cyngor yn mynd rhagddi i gyfathrebu dros e-bost yn arferol wrth ymdrin â phob cynghorydd oni bai fod cynghorydd unigol yn gofyn am gopïau papur o fusnes y cyngor.
4. Byddwn yn hysbysu mudiadau partner fel Dinbych yn ei Blodau a Bodfari Environmental bod y cyngor yn disgwyl na chaiff unrhyw chwynladdwyr neu bryfleiddiaid diangen eu defnyddio ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno neu'n ei reoli neu ar brosiectau wedi'u hariannu gan y cyngor.
5. Bydd y cyngor yn parhau i gydweithio gydag ysgolion lleol i'w hysbysu am fentrau amgylcheddol. Bydd y Cynghorwyr Tref sydd hefyd yn llywodraethwyr yr ysgol yn chwarae rhan bwysig o ran cyfathrebu rhwng cynghorau ysgol a'r Cyngor Tref.
6. Lle bo'r cyngor yn gyfrifol am dorri'r gwair, byddwn o bosib yn ystyried ymylon blodau gwyllt er mwyn annog a denu peilliaid.
7. Enghreifftiau o ddisgwyliadau'r cyngor. Dylid defnyddio compost heb fawn ynddo. Dylai unrhyw blanhigion fod yn ddiogel ar gyfer peilliaid. Ni ddylid defnyddio papur lapio na ellir ei ailgylchu. Dylai digwyddiadau wedi'u hariannu gan y Cyngor gynhyrchu cyn lleied o wastraff na ellir ei ailgylchu â phosib a dylid darparu blychau ailgylchu ar gyfer y cyhoedd, yr arddangoswyr a'r rheiny sy'n cynnal stondinau.
8. Bydd y cyngor yn annog busnesau lleol i fod yn fwy ymwybodol o'r angen i fabwysiadu ymarferion sy'n ystyriol o'r amgylchedd.
9. Darparwr Pensiynau'n buddsoddi mewn cwmnïau amgylcheddol – Ynni'r Haul

## CYMRU IACHACH

Yn ddiweddar fe fuddsoddwyd yng nghyfleusterau hamdden yn yr ardal ac fel rhan o'r gwaith bu estyniad i'r ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Dinbych fel bod digon o le i bobl yno gan ei fod o dan ei sang yn aml yn ystod yr amseroedd mwyaf prysur. Bydd y gofod ychwanegol yn fodd i'r ganolfan ehangu eu haelodaeth o 650 i dros 800. Daw'r buddsoddiad hwn yn dilyn agor stiwdio ymarfer newydd a gwaith adfer i ystafelloedd newid y pwll nofio ar ddiwedd 2016. Mae'r cyfleusterau hyn er budd yr aelodau cyffredinol ond am ben hyn mae nifer o glybiau a chymdeithasau yn manteisio arnyn nhw ynghyd â'r cynllun llwyddiannus i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff.

Mae Ysbyty Cymunedol Dinbych gyda'i bwyslais ar ofal i bobl hŷn, ailalluogi a gofal mamolaeth yn gyfleuster allweddol yn yr ardal leol.

Mae Cyngor Tref Dinbych yn gyfrifol am reoli Teithiau Tywys Dinbych sydd ar ddydd Sul o fis Mai hyd at fis Medi pob blwyddyn. Mae ystod o dywyswyr sy'n meddu ar wybodaeth amrywiol yn barod i dywys trigolion yr ardal ac ymwelwyr o amgylch Dinbych.

Mae Cyngor Tref Dinbych, ar y cyd â Grŵp Cynefin yn cynnal a chadw'r Parc Sglefrio yn y Parc Isaf.

Mae Cyngor Tref Dinbych yn ymroi i gefnogi grwpiau sy'n annog lles a byw'n iachach. Ymysg y clybiau wnaeth elwa eleni mae–

- Clwb Pêl-droed Dinbych
- Clwb Rygbi Dinbych
- Grŵp Carnifal - Bagiau crefft Plant ac Oedolion
- Grwp Anghofiwch fi nid
- Grŵp Carnifal - Cyfnewidfa Gwisg Ysgol
- Theatr Bara Caws

## CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

Mae cyfraddau o bobl hŷn (dros 65) Dinbych yn debyg i'r cyfraddau yn y Sir yn ei chyfanrwydd gyda rhai rhannau (Dinbych Uchaf yn bennaf) yn gartref i bobl ieuengach ar y cyfan.

Daw cyfrannau fymryn yn uwch o boblogaeth Dinbych o gefndiroedd gwyn (oni bai am Brydeinig, Cymraeg, Saesneg, Albanaidd, neu o Ogledd Iwerddon), Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (yn enwedig Tsieineaidd) o gymharu â rhannau eraill y sir. Dydy'r rhain ddim yn uchel o gymharu ag ardaloedd yn Lloegr.

Mae'r Cyngor yn un o brif gefnogwyr Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych yn Ninbych gan gyflwyno grant blynyddol iddyn nhw a chefnogi digwyddiad blynyddol Ailgylchu Dillad Ysgol Sir Ddinbych er mwyn cefnogi Trigolion Dinbych.

## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNYS

Mae Cyngor Tref Dinbych wrth wraidd nifer helaeth o wahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n hybu ysbryd cymunedol a gwella cydlyniant cymunedol. Yn ystod y flwyddyn mae'n fraint gan y Maer fynychu digwyddiadau lleol gan nifer o wahanol fudiadau sy'n amlwg yn mwynhau croesawu arweinydd dinesig y Cyngor Tref i'w ymweld a'u cefnogi.
Mae grwpiau fel cynghorau'r ysgolion cynradd, geidiaid ac ati yn ymweld â Siambr y Cyngor er mwyn ceisio ennyn diddordeb y plant a phobl ifanc i ddod yn Gynghorwyr y dyfodol. Gobeithio y byddwn yn gallu darparu ar gyfer y rhain eto yn y flwyddyn i ddod.

- Caiff baneri eu gosod o fis Mai-Medi er mwyn ychwanegu mymryn o liw at y strydoedd
- Gŵyl Ganol Haf
- Carnifal Dinbych
- Celf Flodeuog Dinbych
- Dydd Sul Dinesig y Maer
- Sioe Dinbych a Fflint
- Sioe Dinbych
- Drysau Agored
- Yr Ŵyl Gwrw
- Yr Ŵyl Eirin
- Digwyddiad Tân Gwyllt
- Sul y Cofio
- Goleuadau Nadolig
- Rholio'r Gasgen
- Cefnogi Digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi
- Dinbych yn ei Blodau
- Digwyddiadau Menter Iaith
- Gefeillio (Dwywaith y flwyddyn)
- Trefi Caerog, Rali Geir, Twrnamaint Golff a Bowlio

Yn anffodus, canslwyd y mwyafrif yn 2020, cynhaliwyd rhai ar-lein ond i rai nid oedd hyn yn ymarferol.

## CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Mae ardal Dinbych yn gyfoeth o asedau treftadaeth sylweddol fel y safleoedd dan reolaeth CADW, Castell Dinbych, Mynachlog Dinbych a Waliau'r Dref. At hyn mae pensaernïaeth hanesyddol i'w weld ymhob man yn Nhref Dinbych ac fe allwch fwrw golwg arno fel rhan o'r cynllun drysau agored llwyddiannus. Mae toreth o Adeiladau Hanesyddol yn Ninbych ac mae oddeutu 220 ohonyn nhw'n adeiladau rhestredig.

Mae Dinbych hefyd yn ganolfan diwylliannol allweddol i'r gymuned amaethyddol gyda bod y dref yn gartref i Sioe amaethyddol Dinbych a Fflint a Sioe Dinbych.

Mae 2775 o Siaradwyr Cymraeg dros 3 oed yn Ninbych, ac mae'r dref yn gartref i dros ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol o siaradwyr Cymraeg ymysg y boblogaeth o drigolion.

Yn 2014 bu i Ysgol Twm o'r Nant fynd rhagddi i gynnig addysg i fwy fyth o blant cynradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Dinbych hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg i'r rheiny sy'n symud i'r dref yn hwyrach ymlaen yn eu bywydau gan gynnig addysg drochi i blant oedran cynradd fynd ati i siarad yr iaith.

Bu i Gyngor Tref Dinbych fabwysiadu deddf yr Iaith Gymraeg. Mae cyfieithydd yn bresennol ymhob cyfarfod ac fe gaiff yr holl Agendâu, cofnodion a dogfennau eraill eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae gwefan Cyngor Tref Dinbych yn ddwyieithog hefyd. Ar hyn o bryd oherwydd cyfarfod chwyddo ac un cynghorydd yn deialu ar ffôn, nid ydym wedi gallu cael cyfieithiadau ar y pryd. Rydym yn edrych i mewn i gael cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol pan fydd y cyfieithiadau yn ailddechrau.

## CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Mae ystod o asedau a datblygiadau hanesyddol, diwylliannol ac amgylcheddol Dinbych yn gyfraniad teg tuag at ofalu fod Cymru'n wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Byddwn yn rhoi egwyddorion cynaladwyedd ar waith drwy gyflawni ein Cynllun Llesiant, Cynlluniau Datblygu ac Adfywio Lleol ynghyd â'n gwaith bioamrywiaeth a chadwraeth. Mae Cyngor Tref Dinbych hefyd yn cynnal cyfres o Ddarlithoedd Treftadaeth pob blwyddyn. Mae'r darlithoedd yn rhad ac am ddim ac mae croeso i unrhyw un o'r cyhoedd eu mynychu.